Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llanrhaeadr ym Mochnant

**Ysgol Gynradd Llanrhaeadr ym Mochnant**

**Llanrhaeadr ym Mochnant**

**Powys**

**SY10 0JY**

**Dyddiad yr arolygiad: 9/10 Chwefror 2012**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Llanrhaeadr ym Mochnant yn yr ysgol gynradd newydd a adeiladwyd yn y pentref yn ddiweddar.  Pentre gwedig yw Llanrhaeadr ym Mochnant yng Ngogledd Powys rhyw 12 milltir i`r gogledd-orllewin o`r Trallwng.

Mae`r Cylch yn darparu addysg i`r blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg ac wedi`i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i dderbyn i fyny at 24 o blant.  Daw plant i`r Cylch o 2½ oed a gadael yn y tymor sy`n dilyn eu penblwydd yn dair oed.  Mae bron pob un o`r plant yn parhau â`u haddysg yn yr ysgol gynradd gyfagos.

Lleolir y Cylch yn neuadd yr ysgol – cyfleuster mawr a helaeth. Mae gan y Cylch fynedfa ei hun – mae`r cyntedd yn darparu cyfleusterau hongian cotiau a thoiled yn ogystal â hysbysfwrdd sy`n arddangos gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer rhieni a gofalwyr.  Mae`r neuadd yn gynnes ac wedi`i gosod ar gyfer darparu amrywiaeth o ardaloedd chwarae i`r plant.  Fodd bynnag, gan ei bod yn cael ei defnyddio gan yr ysgol fel neuadd fwyta ac ar gyfer gwasanaeth ysgol gyfan, mae`i defnydd gan y Cylch wedi`i gyfyngu i amserau penodedig yn yr wythnos.  Mae`r Cylch yn cyfarfod ar Ddydd Llun a Dydd Iau rhwng 8.45y.b. – 11.45y.b. ac ar Ddydd Mawrth rhwng 1y.p. – 3.30y.p. ac ar Ddydd Gwener 1 y.p – 2.30y.p. yn ystod tymor yr ysgol.

Ar hyn o bryd mae 10 o blant ar y gofrestr gyda 5 ohonynt yn 3 oed ac yn cael eu hariannu am 10 awr yr wythnos.  Daw`r plant o`r pentref a`r ardal wledig, nid oes yr un ohonynt o dan anfantais yn economiadd gymdeithasol nac yn arbennig o freintiedig. Dyma gymuned wledig Gymreig nodweddiadol.  Nodir bod gan un plentyn anghenion addysgol arbennig (AAA) gyda chefnogaeth 1:1.  Mae`r Cylch yn croesawu plant pa beth bynnag yw eu cefndir neu allu gan gynnwys plant o gefndiroedd ethnig lleafrifol.

Mae gan y plant feistrolaeth dda o`r iaith Gymraeg – yr unig eithriad yw unrhyw blentyn sydd wedi dechrau yn y Cylch yn ddiweddar.  Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o`r plant sy`n dod o gartrefi lle`r Gymraeg yw`r brif iaith, daw rhyw hanner o gartrefi lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg a daw`r gweddill o gartrefi lle siaredir Saesneg.

Arolygwyd y Cylch yn flaenorol gan Estyn ym Mawrth 2006 ac mae`r Cylch wedi mynd i`r afael â`r argymhellion.  Tachwedd 2011 oedd dyddiad yr adroddiad AGGCC fwyaf diweddar ac nid oedd unrhyw gofynion rheoliadol ac mae`r Cylch wedi mynd i`r afael â`r agweddau a nodwyd i wella darpariaeth.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

<u>Agweddau da</u>

- Awyrgylch cynnes, cartrefol a deniadol sy`n croesawu`r plant sy`n mynychu`r Cylch.
- Agwedd bositif a sensitif tuag at ddatblygu medrau`r plant yn yr iaith Gymraeg ac yn ieithyddol.
- Athroniaeth Cyfnod Sylfaen y Cylch sy`n annog y plant i ddod yn ddysgwyr annibynnol.
- Datblygiad personol a chymdeithasol y plant sy`n amlwg yn eu hunan-hyder a`u gallu i ffurfio perthynas.
- Staff ymroddedig gyda pherthynas waith dda a chysylltiadau sefydlog gyda rhieni.
- Pwyllgor rheoli cefnogol ac effeithiol.
- Gweithdrefnau diogelu plant hir sefydlog ac effeithiol.
- Cysylltiadau effeithiol gyda`r ysgol gynradd.

<u>Digonol</u>

- Cynllunio ar gyfer sicrhau dilyniant a pharhad yng ngwybodaeth, medrau a dealltwriaeth y plant.
- Y defnydd o asesu i arwain y cynllunio gan nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.

### Rhagolygon gwella

<u>Da</u>

- Cefnogaeth dda iawn yr ysgol gynradd ac yn enwedig athrawes y Dosbarth Meithrin sy`n argoeli`n dda ar gyfer cynllunio ar gyfer gwella.
- Hanes o weithredu`r Cyfnod Sylfaen dros gyfnod eithaf byr o amser.
- Mynychu cyrsiau a defnydd o fentrau.
- Cefnogaeth gan y pwyllgor rheoli.
- Staff yn dangos eu bod yn agored i newid a`u hymrwymiad i wella.
- Cefnogaeth gan yr awdurdod lleol a Mudiad Ysgolion Meithrin.

Digonol

- Mae`r Cylch wedi ymgymryd â hunanarfarnu yn ddiweddar ond nid yw`r cynllunio ar gyfer gwella wedi`i ddatblygu`n ddigonol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 gynllunio er mwyn darparu dilyniant a pharhad yn y dysgu ar gyfer y plant ac i gyfateb gweithgareddau dysgu â gallu a chyflawniad blaenorol y plant;

A2 ymestyn y gweithdrefnau asesu er mwyn nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer plant unigol;

A3 datblygu systemau hunan werthuso er mwyn asesu`r ddarpariaeth addysgol yn reolaidd ac i gynllunio ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y Cylch yn llunio cynllun gweithredu sy`n dangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y Cylch.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae`r cynllunio tymor hir yn seiliedig ar themau hanner tymor a phrofiadau dysgu wythnosol sy`n seiliedig ar ddeilliannau`r Cyfnod Sylfaen. Mae`r gweithgareddau wythnosol yn canolbwyntio ar y chwe maes dysgu ac yn cael eu cynllunio`n briodol i ennyn diddordeb pob plentyn yn llwyddiannus. Mae`r gweithgareddau o ddiddordeb i`r holl blant ac ar y cyfan yn diwallu eu hanghenion. Nid yw`r cynllunio fodd bynnag yn canolbwyntio cystal ar adeiladu`n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant.

Mae`r gweithgareddau dysgu yn cyfeirio`n dda at ddatblygu parch y plant at ei gilydd ac at oedolion. Mae`r gweithgareddau sy`n cael eu cynllunio yn annog plant yn briodol i ddod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol ac i ffurfio perthynas dda. Mae digon o gyfleoedd i`r plant ddatblygu eu medrau creadigol. Mae cyfleoedd da hefyd i`r plant ddatblygu dealltwriaeth o`r byd a`r angen i ofalu am bethau byw.

Mae`r plant yn dechrau datblygu eu medrau, gan gynnwys eu medrau meddwl ac mae`r oedolion yn edrych am gyfleoedd i ddatblygu`r medrau yma yn ystod gweithgareddau`r plant.

Rhoddir blaenoriaeth uchel i`r iaith Gymraeg a`r dimensiwn Cymreig. Mae bron pob un o`r plant yn sgwrsio`n hapus yn yr iaith Gymraeg, yn dangos dealltwriaeth dda o`r iaith ac yn gysurus yn defnyddio`r iaith. Mae`r cynllunio yn cynnwys datblygu gwybodaeth y plant o rai o arferion a dathliadau Cymru, fel Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen.

Mae`r ysgol yn darparu cyfleoedd rhagorol i`r plant ddysgu am gynaliadwyedd ac ail-gylchu. Mae`r ysgol yn weithgar wrth gompostio gwastraff a thyfu llysiau fel rhan o`i gweithgareddau garddio - mae plant y Cylch yn gweld hyn ac maen nhw`n cymryd rhan mewn plannu a thyfu hadau a bylbiau. Mae gwybodaeth y plant o bobl mewn gwledydd eraill yn cael ei datblygu drwy astudio Diwali a`r arferion sy`n gysylltiedig.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen a disgwyliadau uchel o`r plant, yn enwedig yn nhermau eu medrau personol a chymdeithasol, gan gynnwys plant sy`n cael eu nodi ag anghenion addysgol ychwanegol (ADY). Ar y cyfan, mae`r disgwyliadau yn cael eu gwireddu yn ymarferol.

Mae`r cynllunio yn sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u harwain gan oedolyn. Ar y cyfan, mae`r gweithgareddau`n diwallu anghenion unigol y plant yn y modd mae`r plant yn dangos ymglymiad gweithredol ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith. Mae`r staff yn cefnogi`r plant yn eu gweithgareddau ac mae`r plant yn gofyn am gyngor yn hyderus yn ôl yr angen. Maen nhw`n ymateb yn gadarnhaol i awgrymiadau gan oedolion.

Mae ymddygiad y plant yn cael ei reoli`n effeithiol, ac mae`r amrywiaeth dda o weithgareddau diddorol yn helpu. Mae`r staff yn fodelau iaith da iawn a defnyddir cwestiynau a thrafodaeth yn dda iawn i ddatblygu iaith y plant.

Mae`r holl ymarferwyr yn cael eu briffio`n dda ac yn weithredol iawn wrth gefnogi`r plant. Mae`r plant yn cael eu hasesu`n rheolaidd gan gofnodi`r sylwadau. Mae hyn yn rhoi mesur da o gynnydd y plant. Er bod yr ymarferwyr yn ymwybodol iawn o allu`r plant, nid yw canlyniadau na deilliannau`r asesu yn cael eu defnyddio bob tro i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol er mwyn cyfateb tasgau ag anghenion a gallu`r plant. Fel canlyniad, nid yw`r plant yn cael eu herio`n ddigonol. Nid yw`r asesu`n canolbwyntio`n ddigonol ar y camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae`r Cylch yn llwyddiannus iawn yn ei hyrwyddiad o iechyd a lles plant. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, parch at wirionedd a pherthynas ofalgar yn cael eu datblygu`n dda iawn. Mae`r plant yn gwybod yn glir y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy`n gywir a`r hyn sy`n anghywir, ac mae`r gofal a`r parch maen nhw`n dangos yn nodwedd arwyddocaol o fywyd yn y Cylch. Mae`r plant yn rhannu teganau ac adnoddau heb amheuaeth ac mae hyn yn cyfrannu`n sylweddol tuag at yr awyrgylch cartrefol a chefnogol sy`n amlwg yn y Cylch. Mae datblygiad diwylliannol y plant yn cael ei gyfoethogi gan astudiaethau ac arddangosfeydd yn ymwneud ac arferion a thraddodiadau Cymru.

Mae`r trefniadau diogelu wedi`u hen sefydlu ac yn effeithiol. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith a`r arweinydd yw`r person sy`n gyfrifol am ddiogelu plant ar y cyd â`r Person Cofrestredig. (Y person cofrestredig yw athrawes feithrin yr ysgol sy`n dysgu yn y dosbarth cyfagos). Mae`r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant diweddar ac mae`r gweithdrefnau yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008. I grynhoi, “mae gan y lleoliad bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu”.

Defnyddir Gwasanaethau Arbenigol yn briodol ac mae`r plant yn cael cefnogaeth broffesiynol yn ôl yr angen. Mae cysylltiadau effeithiol gyda asiantaethau arbenigol

sy`n rhoi gwybodaeth ac arweiniad yn ôl yr angen. Mae cysylltiadau da mewn lle gyda`r ysgol gynradd ac mae hyn yn sicrhau parhad yn natblygiad y plentyn.

Mae`r plant sy`n cael eu nodi ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn derbyn mynediad i bob maes dysgu a chysylltir â rhieni yn reolaidd. Yn ôl yr angen, mae`r plant yn cael cefnogaeth 1:1.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae`r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant eu trin yn gyfartal gyda pharch, a lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i holl feysydd darpariaeth y lleoliad. Mae pwyslais clir ar gydnabod unigoliaeth, anghenion personol a dathlu cyflawniadau unigol. Fel unigolion, mae gan y staff wybodaeth dda o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen gan arddangos yr arbenigedd sydd ei angen i greu amgylchedd ysgogol ar gyfer dysgu. Maen nhw`n sicrhau bod cyflymder da i`r sesiynau a bod adnoddau yn cael eu defnyddio`n dda i gefnogi dysgu`r plant. Mae`r adnoddau ar gael i`r plant sy`n eu caniatáu i weithio`n annibynnol. Mae`r cyfleusterau yn yr awyr agored sydd yn yr ysgol o safon uchel iawn ac ar gael i`r Cylch eu defnyddio. Drwyddi draw, mae`r adeiladau yn cael eu cynnal yn dda iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae`r Cylch yn cyfleu synnwyr o ddiben yn y gwaith ac ers ei hapwyntio, mae`r arweinydd wedi gweithio mewn partneriaeth â`r person cofrestredig i hyrwyddo a chynnal gwelliant. Mae hyn hefyd wedi llwyddo i roi cyfeiriad strategol da i`r Cylch. Mae`r gefnogaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar yr arweinyddiaeth. Mae`r addysgu a`r dysgu yn cael eu rheoli`n dda ac mae`r staff yn cydweithio`n dda iawn. Mae polisïau ar waith ac nae gweithdrefnau yn effeithiol. Drwyddi draw, mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu`n llwyddiannus.

Mae`r berthynas ag eraill yn dda iawn. Mae`r staff yn ymwybodol o`u rolau ac yn gwerthfawrogi plant fel unigolion. Mae hyn yn darparu awyrgylch hapus a bodlon, lle mae`r plant yn hapus i ddod ar gyfer pob sesiwn. Cefnogir y Cylch yn dda gan y pwyllgor rheoli sy`n cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol. Roedd yr holiaduron a ddosbarthwyd i rieni yn nodi eu boddhad a`u gwerthfawrogiad o waith y staff. Mae`r Cylch wedi ystyried blaenoriaethau cenedlaethol yn dda, fel cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a mentrau bwyta`n iach.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Ers eu hapwyntio yn ddiweddar, mae`r staff wedi dod i adnabod y lleoliad yn dda gan wneud defnydd da o`r holl gyfleusterau sydd ar gael i`r Cylch. Mae hyn wedi sicrhau

darpariaeth dda ar gyfer y plant ac mae meysydd i`w datblygu wedi`u nodi. Mae`r staff yn dangos diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu a pharodrwydd i fod yn agored i syniadau newydd. Mae`r staff yn sensitif i farn a disgwyliadau`r plant. Drwyddi draw, mae`r lleoliad yn datblygu`n dda gyda`r staff yn cael eu cefnogi`n dda yn eu datblygiad proffesiynol gan yr ysgol, yr awdurdod lleol a Mudiad Ysgolion Meithrin. Fel rhan o`r broses hunanarfarnu, mae agweddau ar gyfer datblygu a gwella`r ddarpariaeth wedi`u nodi, ond oherwydd i apwyntiad diweddar staff y Cylch, mae`r broses megis dechrau. Nid yw`r cynllunio, hyd yn hyn, yn cynnwys cynllun ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae trefniadau partneriaeth da ar waith sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i`r ddarpariaeth addysgol ac fel canlyniad i gyflawniad a lles y plant. Mae partneriaeth nodedig a da iawn wedi ei sefydlu gyda`r ysgol ac yn enwedig gyda`r athrawes feithrin – hi hefyd yw`r person cofrestredig. Mae hyn wedi darparu`r Cylch â chefnogaeth broffesiynol a chyngor yn ystod cyfnod o newid. Mae`r cysylltiadau cryf â`r ysgol gynradd yn darparu`r Cylch â chyfleusterau rhagorol, yn enwedig yr ardaloedd chwarae tu allan a`r ardaloedd astudio.

Mae gan y Cylch gysylltiadau cryf â rhieni a gofalwyr ac mae`r Cylch yn cymryd ystyriaeth dda o`u barn, fel eu hysbysu o themau a gweithgareddau sy`n cael eu gwneud fel rhan o waith bob dydd y Cylch. Maen nhw`n gwerthfawrogi`r gofal a`r gefnogaeth o`u plant a`r modd mae`n hawdd mynd at y staff. Caiff gwaith y Cylch a`i ddatblygiad gefnogaeth dda gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Ysgolion Meithrin. Darperir cefnogaeth ychwanegol gan sefydiadau allanol yn ôl yr angen.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y Cylch fynediad at gyfleusterau rhagorol yr ysgol. Mae ganddo fynediad uniongyrchol at ardal chwarae`r babanod a`r teganau mawr ac ardal chwarae meddal. Mae nifer o deganau symudol ar gael, yn ogystal ag ardal dan do lle mae`r plant yn gallu gweithio a chwarae. Mae hefyd cyfleusterau iard ar gael ar gyfer gemau pêl a gweithgareddau corfforol eraill. Mae gan yr ysgol ardal helaeth o borfa a gardd sy`n ffynnu lle caiff ffrwythau a llysiau eu tyfu. Mae hyn ar gael i`r plant i`w gweld ac i werthfawrogi hau a thyfiant hadau a bylbiau a sut i ofalu am blanhigion.

Mae`r Cylch yn defnyddio neuadd yr ysgol yn dda – mae`r neuadd yn darparu digon o le i amrywiaeth dda o weithgareddau. Yr unig anfantais yw bod y neuadd yn un aml-bwrpas, sy`n golygu bod rhaid clirio`r adnoddau i ffwrdd ar ôl pob sesiwn. Fodd bynnag, mae`r ysgol yn caniatáu bod un rhan o`r neuadd yn cael ei defnyddio i storio ac arddangos. Mae`r gwariant yn unol â`r blaenoriaethau ac mae`r adnoddau sydd ar gael yn cyfateb yn dda â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae`r pwyllgor rheoli yn gofalu am faterion ariannol.

Mae`r Cylch yn darparu gwerth da am arian ac mae gwariant yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad a lles y plant.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni oherwydd nifer fach yr ymatebion a gafwyd (llai na 10).

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae`r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y Cylch.  Mae nhw`n dangos eu mwynhad wrth iddynt ddod i`r sesiynau ac yn fuan yn cymryd rhan yn weithredol yn yr amrywiaeth o weithgareddau a osodir ar eu cyfer.  Maen nhw`n cael eu cyfarch gan y staff ond yn fuan maent yn cymryd rhan gyda`u cyfoedion mewn gweithgareddau gwahanol.  Mae`r plant yn hunan-hyderus ac yn annibynnol ond yn gwybod ble i ofyn am gyngor.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)